# Cod Ymddygiad Cyflenwyr

Cyhoeddwyd 5 Tachwedd 2025

# Cynnwys

## Adran

1. Rhagair ........................................................................ 4
2. Cyflwyniad .................................................................... 5
3. Ymddygiad ..................................................................... 6
4. Polisïau Allweddol ............................................................ 8
5. Rheoli'r gadwyn gyflenwi ...................................................... 10
6. Pryderon a chwynion ........................................................... 11

# 1. Rhagair

1.1 Mae Ofcom yn cydnabod ein bod yn aml yn dibynnu ar ein cyflenwyr a'u cadwyni cyflenwi i ddarparu gwasanaethau pwysig sy'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion craidd, felly mae'n bwysig i ni y gallwn weithio ar y cyd ac yn adeiladol gyda nhw. Bwriad y Cod Ymddygiad Cyflenwyr yw darparu sylfaen i gefnogi hyn, gan nodi ein disgwyliadau o'n cyflenwyr, sy'n gyson â'n gwerthoedd corfforaethol. Trwy hyn, ein nod yw cynorthwyo cyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr y dyfodol i ddeall y disgwyliadau hyn a'n helpu i barhau i gyflawni'r ymrwymiadau hyn.

1.2 Rydym yn disgwyl i'n holl gyflenwyr ymddwyn yn foesegol, gan drin eraill (boed yn weithwyr, cynrychiolwyr Ofcom, aelodau'r gadwyn gyflenwi neu randdeiliaid eraill) gydag urddas a pharch. Er bod cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a rheoleiddio bob amser yn ddisgwyliedig, rydym yn annog ein cyflenwyr i fynd hyd yn oed ymhellach a rhagori ar y gofynion hyn lle bynnag y bo modd. Rydym hefyd yn disgwyl iddynt gefnogi polisïau masnachol allweddol gan gynnwys ein hymrwymiad i ddarparu arferion caffael cynaliadwy trwy Ymrwymiadau Llywodraeth Gwyrdd a darparu gwerth cymdeithasol ychwanegol trwy ein gwasanaethau dan gontract.

1.3 Mae'r cod ymddygiad hwn yn nodi'r ymddygiad yr ydym yn ei ddisgwyl gan ein cyflenwyr, ac mae gennym yr un disgwyliadau o'n gweithwyr a'n cynrychiolwyr ein hunain. Byddem yn annog unrhyw gyflenwr sy'n profi unrhyw beth nad yw'n cyd-fynd â'r cod ymddygiad hwn i roi gwybod i ni amdano, a hynny yn yr ysbryd a fwriadwyd trwy'r cod ymddygiad hwn i'n galluogi i adolygu a gwella lle mae angen.

1.4 Rydym yn awyddus i ymgorffori ac adeiladu ar y cod ymddygiad hwn yn y blynyddoedd i ddod ac felly rydym yn bwriadu ei adolygu'n flynyddol yn y dyfodol. Er nad yw'r cod ei hun yn rhwymol yn gontractiol, rydym yn gobeithio y bydd yn ategu ein cytundebau a'n dogfennau caffael a fydd yn parhau i gael blaenoriaeth.

Ellie Cowell
Pennaeth Masnachol
Ofcom

# 2. Cyflwyniad

## Amdanom ni

Mae Ofcom yn bodoli i wneud i gyfathrebiadau weithio i bawb. Rydym yn cyflogi dros 1600 o bobl ledled y DU. Ein gwerthoedd corfforaethol yw Parch, Rhagoriaeth, Grymuso, Cydweithredu ac Ystwythder. Mae'r rhain yn ganolog i'n heffeithiolrwydd, ac maent yn cefnogi'r math o sefydliad yr ydym am fod, gan llywio ein ffordd o weithio gyda'n gilydd i gyflawni ein hamcanion, gan gynnwys sut rydym yn gweithio gyda'n cyflenwyr.

## Amcanion a phwrpas

Amcan cyffredinol y Cod Ymddygiad Cyflenwyr yw meithrin perthnasoedd agored, llawn ymddiriedaeth rhwng Ofcom a'n cyflenwyr, a hynny er mwyn gyrru perfformiad gwell trwy gadwyni cyflenwi. Bwriedir iddo fod yn ddatganiad o arfer da ar gyfer cyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr a'u cadwyni cyflenwi, ac mae'n nodi'r ymddygiadau yr ydym yn eu disgwyl gan ein gilydd.

Nid yw wedi'i fwriadu i fod yn orfodol yn gyfreithiol, i greu unrhyw rwymedigaethau neu hawliau cyfreithiol neu i danseilio ein cytundebau gyda chyflenwyr neu'r rheolau a nodir gennym pan fyddwn yn caffael ein cyflenwadau a'n gwasanaethau, a fydd bob amser yn cael blaenoriaeth.

# 3. Ymddygiad

## Ymddygiad a chyfathrebu

3.1 Fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau y DU, mae Ofcom yn wleidyddol niwtral ac yn gofyn i'n cadwyni cyflenwi ymatal rhag unrhyw gyhoeddusrwydd a allai gael effaith andwyol ar ein safbwynt.

3.2 Rydym yn disgwyl i bob parti fod yn ymwybodol o'r angen i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd. Dylent sicrhau nad ydyn nhw, nac unrhyw un o'u his-gontractwyr, yn dod ag anfri i Ofcom trwy gymryd rhan mewn unrhyw weithred neu hepgoriad sy'n rhesymol debygol o leihau ymddiriedaeth y cyhoedd ynom. Rydym yn disgwyl i gyflenwyr ein hysbysu'n brydlon am unrhyw sefyllfa a allai fod yn niweidiol i'n henw da.

3.3 Byddwn yn gweithio'n adeiladol ac yn gydweithredol gyda'n cyflenwyr ac yn disgwyl i bob parti drin ei gilydd gydag urddas a pharch. Rydym yn annog cyfathrebu gonest pan fydd gwasanaeth neu brosiect yn annhebygol o fod yn llwyddiannus, neu nad yw cytundeb bellach yn addas i'r diben. Rydym yn disgwyl i gyflenwyr fod yn barod i fuddsoddi yn eu perthynas â'n staff a, lle bo hynny'n briodol, gyda chyflenwyr eraill. Rydym hefyd yn disgwyl i gyflenwyr allu codi eiu llais pan nad yw ein staff neu gyflenwyr eraill yn cynnal y gwerthoedd sydd wedi'u hymgorffori yn y Cod Ymddygiad hwn.

3.4 Mae ein Polisi Cysylltiadau Allanol yn nodi sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw ymddygiad annerbyniol.

## Gwrthdaro buddiannau

3.5 Mae'n ofynnol i holl weithwyr Ofcom gydymffurfio â'n polisi Gwrthdaro Buddiannau mewnol ar gyfer cydweithwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr weithredu gydag uniondeb, gwrthrychedd, diwydrwydd a gonestrwydd bob amser. Mae gan Ofcom ofynion llym y mae'n rhaid i gydweithwyr gadw atynt pan fydd yn cael cynnig anrheg neu letygarwch o unrhyw fath ac rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr barchu hyn ac ymatal rhag gwneud unrhyw gynigion a allai achosi embaras i'r naill barti neu'r llall.

3.6 Rydym hefyd yn disgwyl i'n cyflenwyr gael polisïau tebyg ar waith i sicrhau ymddygiad priodol trwy gydol ein cadwyni cyflenwi. Dylai hyn gynnwys gwirio nad oes gan weithiwr neu is-gontractwr unrhyw beth a allai arwain at wrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig â'r gwaith sy'n cael ei neilltuo gan Ofcom neu effeithio ar annibyniaeth a didueddrwydd Ofcom. Byddwn yn gofyn i gyflenwyr godi unrhyw fuddiannau cyn gynted â phosibl ac yn gofyn i sefydliadau neu unigolion gymryd camau ychwanegol i liniaru'r rhain.

3.7 Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn dogfennau caffael a chytundebol Ofcom.

## Gwrth-lwgrwobrwyo a llygredigaeth

3.8 Rydym yn mynnu bod cyflenwyr yn cadw at gyfreithiau gwrth-lygredd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 a rheoliadau gwrth-wyngalchu arian, yn ogystal â chael prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod unrhyw is-gontractwyr yn eu cadwyn

gyflenwi hefyd yn cydymffurfio â'r deddfau hyn. Mae gennym ddim goddefgarwch o unrhyw fath o arferion llygredig, ac rydym yn disgwyl i gyflenwyr fod yn wyliadwrus ac yn chwilio am dwyll yn rhagweithiol yn eu busnes.

# 4. Polisïau Allweddol

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

4.1 Ni fyddwn yn goddef gwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth yn y gweithle, nac mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaeth a ddarperir gennym. Rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr ddarparu'r un ymrwymiad, gan gynnwys i'w gweithwyr eu hunain a ddangosir trwy eu polisïau corfforaethol eu hunain sy'n cydymffurfio, o leiaf, â Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.

## Hawliau dynol a llafur

4.1 Rydym yn gofyn i'n holl gyflenwyr gael arferion cyflogaeth teg a pholisïau ysgrifenedig ar waith, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau cwyno a chwythu'r chwiban cadarn i sicrhau bod eu gweithwyr yn gallu adrodd am unrhyw bryderon a gallu bod yn hyderus y cynhelir ymchwiliadau teg iddynt.

4.3 Nid ydym yn goddef unrhyw fath o gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl, ac rydym yn cymryd y mater o ddifrif. Yn ogystal â chydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr gymryd ymagwedd ragweithiol at ddeall eu cadwyni cyflenwi eu hunain a, lle nodir unrhyw achosion o gaethwasiaeth fodern, i'n hysbysu a gweithio gyda ni i roi camau clir ar waith i fynd i'r afael â hyn. Dylai cyflenwyr sicrhau bod staff perthnasol a phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod am unrhyw bryderon i'r Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern ar 08000 121 700 neu ar-lein yn: www.modernslaveryhelpline.org.

## Iechyd a diogelwch

4.4 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith diogel ac iach i'r holl weithwyr, ymwelwyr a chontractwyr. Rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr gefnogi hyn a chydymffurfio â'n Polisi Iechyd a Diogelwch a'n deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Dylai cyflenwyr gymryd dull ataliol i osgoi digwyddiadau iechyd a diogelwch, gan sicrhau bod eu gweithwyr a'u cytundebwyr yn cael eu hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol fel sy'n angenrheidiol i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, ac iechyd a diogelwch pobl eraill y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt.

## Gwerth cymdeithasol

4.5 Er mai ein prif amcan masnachol yw sicrhau gwerth am arian trwy ein cytundebau trydydd parti, rydym yn cefnogi ac yn annog ein cyflenwyr i gyflawni canlyniadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwerth cymdeithasol trwy ein cytundebau sy'n arwain at fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i'r cymunedau lleol y mae'r cytundeb yn cael ei

gyflawni ynddynt.  Mae Ofcom yn mabwysiadu polisi Swyddfa'r Cabinet yn wirfoddol (PPN 002: Ystyried gwerth cymdeithasol wrth ddyfarnu cytundebau) i gymhwyso meini prawf dyfarnu sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol i'r holl weithgareddau caffael sy'n cael eu hysbysebu ar y Gwasanaeth Dod o hyd i Dendr. Rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr fod yn ymwybodol o hyn a'n cefnogi i gydymffurfio â hyn.

## Rheolaeth amgylcheddol

4.6 Rydym wedi ymrwymo i'r Ymrwymiadau'r Llywodraeth Gwyrdd, gan gynnwys mabwysiadu'r Safonau Prynu'r Llywodraeth lle bo'n berthnasol, i'n cefnogi i leihau ein heffaith amgylcheddol. Rydym yn annog ein cyflenwyr i ddefnyddio eu harbenigedd i'n cefnogi i gyrraedd ein targedau i leihau ein hôl troed carbon, ein defnydd o ddŵr a gwastraff, a'n helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella. Lle mae gwastraff yn anochel, rydym yn ymdrechu i ailddefnyddio neu ailgylchu cymaint â phosibl.

4.7 Rydym yn gweithio tuag at ddileu plastigau untro o fewn ein sefydliad ac yn croesawu cynigion cyflenwyr ar sut y gallant ein cefnogi i gyflawni'r amcan hwn.

4.8 Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn nodi ein gofynion ar y dechrau mewn dogfen gwahoddiad i dendro, ond rydym bob amser yn croesawu awgrymiadau gan gyflenwyr, fel rhan o'u tendrau neu weithgarwch gwella parhaus o fewn cytundebau presennol, ar sut y gallwn fynd ymhellach. Ar gyfer cytundebau gwerth mwy na £5 miliwn y flwyddyn, byddwn yn asesu cynlluniau lleihau carbon cyflenwyr fel rhan o'r broses gaffael. Rydym hefyd yn annog ein cyflenwyr i adolygu eu hôl troed amgylcheddol eu hunain yn fwy cyffredinol ac ymdrechu i leihau hyn cymaint ag sy’n ymarferol bosibl.

## Gwybodaeth a seiberddiogelwch

4.9 Mae'n hanfodol bod cyflenwyr yn diogelu diogelwch, uniondeb a phreifatrwydd eu systemau a'n data trwy gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, polisïau a safonau perthnasol. Gall hyn gynnwys ceisio achrediad perthnasol lle bo hynny'n briodol. Rydym yn disgwyl i gyflenwyr fonitro eu systemau yn rhagweithiol a rhoi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiadau diogelwch sy'n effeithio ar ddata neu wybodaeth Ofcom neu sydd â'r potensial i effeithio.

# 5. Rheoli'r gadwyn gyflenwi

## Rheoli risg

5.1 Mae'n ofynnol i'n cyflenwyr gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol o leiaf er mwyn sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cynnal. Gan ddibynnu ar ein gofynion, efallai y byddwn yn gofyn i gyflenwyr gyflwyno tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth, a hynny naill ai yn ystod y broses dendro neu drwy weithgaredd rheoli cytundebau rheolaidd.

5.2 Rydym yn annog ein cyflenwyr i nodi a rheoli risgiau yn rhagweithiol a chyfathrebu â ni yn brydlon os bydd unrhyw broblemau a allai effeithio ar gyflawni ein cytundebau. Dylai risgiau gael eu rheoli gan y parti sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny. Nid ydym yn disgwyl i gyflenwyr drosglwyddo risg yn annheg i lawr eu cadwyn gyflenwi.

## Rheoli cadwyni cyflenwi amrywiol

5.3 Mae Ofcom yn ymdrechu i gynnal sylfaen gyflenwyr amrywiol. I gefnogi hyn, rydym yn hysbysebu cyfleoedd i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ni drwy ystod o sianeli priodol gan gynnwys gwefannau Find a Tender Service a Contracts Finder. Rydym hefyd wedi ymrwymo i leihau'r rhwystrau i gystadlu am gyfleoedd a gweithio gyda ni, er enghraifft, trwy ddefnyddio technoleg fel ein porth e-gaffael a dogfennaeth safonol i symleiddio prosesau lle mae'n ymarferol gwneud hynny.

5.4 I gefnogi hyn, rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr:

- hysbysebu cyfleoedd lle bo'n bosibl ac yn briodol i wneud hynny a chymryd camau i sicrhau eu bod yn hygyrch i ystod eang o ddarpar gyflenwyr
- goruchwylio ac ymdrin yn deg â'r is-gontractwyr a'r cyflenwyr yn eu cadwyn gyflenwi
- ceisio lleihau rhwystrau i'r defnydd o fentrau bach a chanolig, gan gynnwys y rhai sy'n eiddo i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, sy'n gymwys i ddarparu nwyddau neu wasanaethau
- annog arloesi yn eu cadwyni cyflenwi i gynyddu gwerth neu ansawdd y cyflenwad.

5.5 Rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr weithio gyda ni yn onest ac yn agored i ymchwilio i gŵynion a wneir yn eu herbyn nhw neu eu gweithwyr, gan gynnwys hysbysu Ofcom am unrhyw gŵynion perthnasol y maent yn eu derbyn yn uniongyrchol. Byddwn yn gweithio gyda chyflenwyr i ddeall amgylchiadau a manylion unrhyw gŵyn a, lle bo'n briodol, gytuno ar gamau i ddatrys y broblem ac osgoi unrhyw ailadrodd.

## Talu'n brydlon

5.6 Rydym wedi ymrwymo i dalu'r holl anfonebau dilys yn brydlon o fewn 30 diwrnod. Rydym yn gofyn i'n cyflenwyr drosglwyddo'r ymrwymiad hwn i is-gontractwyr trwy ein telerau ac amodau safonol.

# 6.Pryderon a chwynion

Rydym yn annog cyflenwyr i roi adborth i ni yn uniongyrchol ac adrodd am unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn. Byddwn yn trafod unrhyw faterion ac yn cytuno ar gynllun gweithredu priodol os bydd angen.

Rydym yn disgwyl i gyflenwyr gael eu proses gŵyno eu hunain ac iddynt ymgysylltu'n adeiladol ag is-gontractwyr a phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi sy'n codi unrhyw broblemau. Fodd bynnag, os yw unrhyw aelod o'r gadwyn gyflenwi o'r farn nad ymdriniwyd â mater yn llwyddiannus, gallant ei godi gyda ni'n uniongyrchol. Er ei bod yn anhebygol y bydd gennym unrhyw hawl gytundebol i ymyrryd, rydym yn hapus i brocera trafodaeth rhwng partïon, gyda'r bwriad o gyrraedd canlyniad a fydd yn dderbyniol i'r nail barti a'r llall.

Dylid codi unrhyw bryderon neu gŵynion yn y lle cyntaf drwy e-bost: procurement@ofcom.org.uk.

Pan fydd unrhyw un yn teimlo nad yw eu cwyn wedi'i thrafod yn unol â pholisïau Ofcom, gan gynnwys y cod ymddygiad hwn, gallant ei chyfeirio at Ysgrifennydd y Gorfforaeth. Mae rhagor o fanylion am y broses hon ar gael ar ein gwefan.

Fel arall, efallai y byddai sefydliadau yn dymuno rhoi gwybod am unrhyw broblemau drwy Wasanaeth Adolygu Caffael Cyhoeddus Gwasanaeth Masnachol y Goron.